



## **PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 21 Mehefin 2018 am 10.30 am ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber    Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd A Crimmings    Y Cyngorydd G Hopkins  
Y Cyngorydd M Norris    Y Cyngorydd J Rosser  
Y Cyngorydd R Lewis    Y Cyngorydd C Leyshon

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr  
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Mr R Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol  
Mr A Griffiths, Pennaeth Materion y Priffyrdd a Pheirianeg  
Mr T Jones, Pennaeth Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu  
Mrs J Clark, Pennaeth Diogelu  
Mrs C Tyler, Swyddog Datblygu Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant  
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Oedolion

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd A Davies-Jones  
Y Cyngorydd D Grehan  
Y Cyngorydd W Jones

#### **1 Cadeirydd**

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, fel Is-gadeirydd y Cabinet, wrth yr Aelodau fod yr Arweinydd wedi methu â chyrraedd y cyfarfod mewn pryd a byddai hi'n cadeirio'r cyfarfod nes iddo gyrraedd.

#### **2 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **3 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar

10.05.18, yn rhai cywir.

#### 4 Rhaglen Waith y Cabinet

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet raglen waith ddrafft i Aelodau'r Cabinet ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2018-19 yn rhestru materion y mae angen i'r Cabinet eu trafod. Nododd yr Ysgrifennydd y bydd defnyddio'r rhaglen yn helpu gyda didwylledd a thryloywder y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ac yn rhoi rhagor o gyfle i graffu ymlaen llaw.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr adroddiad. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu fod y rhaglen yn ddogfen fyw er mwyn caniatáu i adroddiadau gael eu hychwanegu/dileu drwy gydol y flwyddyn. Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i'r Aelodau am ddiwygiadau i'r rhaglen yn cynnwys ychwanegu dau benderfyniad dirprwyedig diweddar mewn perthynas ag ymateb TAN1 i Lywodraeth Cymru a Chychwyn ymgynghoriad mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Cafodd ei ychwanegu y byddai'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn destun craffu ymlaen llaw gan y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant a byddai wedyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet yn y dyfodol. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu y byddai'r adroddiad ar daliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cael ei ystyried yn Rhaglen Cabinet mis Medi. O ran y diweddariad am Ddigonolrwydd Gofal Plant, cafodd ei ychwanegu y byddai'r diweddariad hefyd yn cynnwys manylion am gynllun peilot Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Siaradodd yr Ysgrifennydd am y cyfle posibl i graffu ar y cynllun ymlaen llaw a gall hyn arwain at y cynllun yn cael ei ystyried yn hwyrach gan y Cabinet.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Ysgrifennydd am y diweddariadau sy'n tynnu sylw at sut mae'r ddogfen yn ddogfen newidiol sy'n ystyried blaenoriaethau ac amserlenni newydd er mwyn caniatáu ar gyfer craffu o flaen llaw. Siaradodd y Dirprwy Arweinydd hefyd yn gadarnhaol am y manteision o lunio'r rhaglen waith i gynorthwyo'r Cabinet a'r pwyllgor craffu a gwnaeth sylwadau am ei phresenoldeb yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 25 Mehefin i drafod Rhaglen Waith y Cabinet.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19 a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

#### 5 **CYNNIG I GAU CANOLFAN ORIAU DYDD SAN SIÔR A THROSGLWYDDO DARPARIAETH MYNEDIAD AGORED Y GANOLFAN ORIAU DYDD I GANOLFAN ORIAU DYDD Y GILFACH-GOCH**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion ei adroddiad i'r Aelodau. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion i'r Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig i gau Canolfan Oriau Dydd San Siôr yn Nhonyrefail a throsglwyddo gwasanaethau dydd mynediad agored i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad sy'n cyflwyno'r ymatebion i'r ymgynghoriad a fu'n rhedeg am gyfnod o 8 wythnos rhwng 9 Chwefror tan 6 Ebrill, 2018. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw at agweddau o'r ymgynghoriad. Dywedodd fod yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi bod yn isel. Dim ond 18 person gymerodd ran yn uniongyrchol yn y broses ymgynghori, roedd 16 o'r rheini'n defnyddio Canolfan Oriau Dydd San Siôr ar y pryd. Dywedodd 12 o'r 16 ymatebydd y bydden nhw'n peidio â defnyddio'r gwasanaeth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan restru materion yn ymwneud â thrafnidiaeth a chynnydd posibl mewn costau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yng ngoleuni'r adborth, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r cyngor yn parhau i ymgysylltu â defnyddwyr y ganolfan i geisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch gallu defnyddwyr i gael mynediad i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch o ganlyniad i'w hanallu i yrru neu oherwydd darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus annibynadwy pe bai'r Aelodau o blaid gweithredu'r cynnig. Byddai'r cyngor yn ymgysylltu'n barhaus gydag unigolion perthnasol i'w cefnogi i archwilio'r opsiynau sydd ar gael iddyn nhw fydd yn diwallu eu hanghenion.

Galwodd y Dirprwy Arweinydd ar y ddau Aelod lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Davies-Jones a D Grehan i siarad ar yr eitem.

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd sylwadau am yr ymateb gwael i'r ymgynghoriad a dywedodd nad oedd y cynnig yn ymwneud ag arian ond roedd yn gyfle i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd y byddai'r Aelod Cabinet perthnasol a'r Cyfarwyddwr yn parhau i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu eu hanghenion a'u gofynion.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg sylwadau ar yr ymateb i'r cynnig a'r sylwadau adeiladol gan y ddau Aelod lleol. Cymerodd y cyfle i gydnabod y gwelliannau helaeth y byddai'r adeilad yn y Gilfach-goch yn cynnig o gymharu ag adeilad adfeiliedig Canolfan Oriau Dydd San Siôr. Cadarnhaodd ei ymrwymiad i barhau i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau newydd o fudd i'r defnyddwyr gwasanaeth presennol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gafodd ei gynnal mewn perthynas â chau Canolfan Oriau Dydd San Siôr yn Nhonyrefail a symud gwasanaethau mynediad agored i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch.
2. Yn dilyn ystyriaeth o ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori a materion eraill sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a'i atodiad, i gau Canolfan Oriau Dydd San Siôr yn Nhonyrefail a symud y gwasanaethau mynediad agored oriau dydd i Ganolfan Oriau Dydd y

Gilfach-goch yn unol â throsglwyddo'r cyfleusterau cegin presennol.

(**O.N.** Ar ddiwedd yr eitem yma, roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Morgan yn bresennol a chymerodd drosodd Gadeirio'r cyfarfod.)

## **6 ADOLYGIAD SENEDDOL O IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion drosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad ger eu bron sy'n cynghori am yr adolygiad Seneddol a gafodd ei gynnal mewn perthynas â lechyd a Gofal Cymdeithasol. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu am yr heriau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad a'r 10 argymhelliad sydd wedi'u hamlygu ar gyfer eu gweithredu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at yr adroddiad sy'n ystyried bod gan Gymru'r potensial i oresgyn yr holl heriau sydd wedi'u nodi. Mae'r bwriad cryf i wella iechyd a lles yn amlwg, fel mae'r awydd am system Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Mae deddfwriaeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a strategaeth genedlaethol newydd Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb' yn gosod cyd-destun cadarnhaol sy'n edrych i'r dyfodol mae llawer o systemau iechyd a gofal eraill yn anelu ato. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai'r her fyddai troi'r uchelgais yn realiti.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg ynglŷn â'r adolygiad a'r camau cadarnhaol sy'n cael eu gwneud yn barod o ran Gofal Cymdeithasol ac lechyd ac integreiddio gwasanaethau. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am waith y Bwrdd Partneriaeth Lles a Gwasanaethau Cymdeithasol ac integreiddio gwasanaethau fel y fenter Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at y gwaith cydweithredol rhanbarthol sy'n cael ei symud ymlaen gyda Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Sector Gwirfoddol.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Plant sylwadau hefyd ar yr adroddiad gan ychwanegu bod yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar oedolion a'r angen i sicrhau nad oedd plant yn cael eu colli o fewn yr adolygiad.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- 1 Nodi canlyniad yr Adolygiad Seneddol i lechyd a Gofal Cymdeithasol;
- 2 Nodi argymhellion yr Adolygiad Seneddol i lechyd a Gofal Cymdeithasol ac i swyddogion gyflwyno sylwadau'r Aelodau ar y ffordd orau o ddatblygu rhaglen newid a gwelliant trawsnewidiol.
- 3 Cyfeirio'r adroddiad at Fwrdd Partneriaeth Lles a Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Taf i gael gwybodaeth.

## **7 GWASANAETHAU PLANT RHONDDA CYNON TAF - CYNLLUN GWEITHREDU'R PANEL SICRHAU ANSAWDD PLANT SY'N DERBYN GOFAL 2018-2019**

Rhoddodd y Swyddog Datblygu Gwasanaeth ddiweddariad i'r Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Panel Sicrhau Answdd Plant sy'n Derbyn Gofal. Swyddogaeth y panel yw sicrhau bod y plant a'r bobl ifainc iawn yn cael eu dwyn i mewn i'r system plant sy'n derbyn gofal a bod y rhai sy'n gallu dychwelyd adref o ofal preswyl yn gwneud hynny cyn gynted â phosib.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod natur anrhagweladwy y galw am ofal ar gyfer plant a phobl ifainc yn parhau i fod yn risg ariannol allweddol i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi profi cynnydd mewn niferoedd o blant sydd angen gofal dros y pum mlynedd diwethaf, o 621 yn 2013 i 676 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2017-2018, cynnydd o 55 o blant. Cadarnhaodd y Swyddog Datblygu Gwasanaeth fod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn y maes gwasanaeth a bod hyn yn destun ffocws a gweithredu parhaus.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at y ddau atodiad i'r adroddiad sy'n rhoi rhagor o fanylion am amcanion y Paneli a'r camau i'w cymryd.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc yn gadarnhaol am yr adroddiad a'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal. Gwnaeth sylwadau am yr atgyfeiriadau un mynediad drwy'r gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, cwmpas yr Hybiau Cymunedol a'r rolau y bydd rhaid iddyn nhw chwarae yn y gymuned a'r rhwydwaith o weithgareddau sydd ar gael. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y gwaith pellach sydd ei angen i fynd i'r afael â materion llety ac anghenion cymhleth pobl ifanc a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i geisio cadw plant yn y Fwrdeistref Sirol. Diweddodd yr Aelod o'r Cabinet ei sylwadau drwy ychwanegu er y dylai'r gyfradd o blant sy'n dod i mewn i'r system gofal barhau i fod yn flaenoriaeth yn y maes gwasanaeth, mae'n bwysig bod y Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i leihau'r nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal mewn modd diogel ac i gyflawni'r deilliannau gorau posib ar gyfer plant a phobl ifainc Rhondda Cynon Taf.

### **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad yma a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella.

## **8 GOFYNION RHAGLEN WAITH Y STRATEGAETH DDIGIDOL**

Rhoddodd Pennaeth TGCh ddiweddariad i'r Aelodau ar waith y strategaeth ddigidol a'r rhaglen waith arfaethedig o gamau gweithredu y mae angen eu cyflawni. Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 5 o'r

adroddiad sy'n rhestru'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni hyd yma mewn perthynas â chyflawni strategaeth ddigidol y Cyngor. Cyfeiriodd Pennaeth TGCh at waith mewn perthynas â'r Trigolyn Digidol, Sgiliau Digidol, Gweithle Digidol, Ymwelydd Digidol a'r Busnes Digidol. Ychwanegodd fod buddsoddiad yn y seilwaith digidol wedi bod yn sail i'r gwaith uchod. Mae hyn wedi cynnwys cynyddu'r capasiti band llydan, gweithredu system deffoni fodern mewn llyfrgell, theatrau a chanolfannau hamdden, gosod system di-wifr yn nifer o adeiladau'r Cyngor, a buddsoddi drwy raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> ganrif i drawsnewid y profiad disgyblion o ddysgu.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol i Bennaeth TGCh a'i garfan am eu gwaith hyd yma. Gwnaeth sylwadau am y gwaith cadarnhaol sydd wedi cael ei wneud gyda seilwaith digidol y Cyngor, sy'n gwneud y Cyngor yn gydnerth ar gyfer y dyfodol. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd am y datblygiadau fyddai'n cael eu hadnabod gan y cwsmeriaid a defnyddwyr y gwasanaeth.

Siaradodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd am y gwaith sydd wedi cael ei wneud a phwysigrwydd galluogi gweithio hyblyg er budd y staff sy'n cymryd rhan a'r Cyngor o ran y strategaeth llety swyddfa.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cefnogi ymdrechion i gynyddu cyfleoedd ar-lein a chyfleoedd hunan-wasanaeth a chytuno i sefydlu prosiectau peilot hunan-wasanaeth o fewn Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden a Chanolfannau IBobUn.
2. Uwchraddio a gwella system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y Cyngor.
3. Ymgymryd ag ymarfer caffael i ddisodli'r system teleffoni canolfannau cyswllt presennol.
4. Cefnogi ehangu'r cyfleoedd i adeiladu sgiliau digidol, er enghraifft drwy Dydd Gwener Digidol, gwaith yn ymwneud â Chamfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein a chefnogi defnyddwyr y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Bobl sy'n Gaeth i'w Cartref.
5. Gweithredu'r rhaglen Gweithio Hyblyg yn gynt, gan adeiladu ar lwyddiant y prosiectau peilot sydd wedi cael eu cwblhau ac yn unol â gofynion Strategaeth Llety'r Cyngor.
6. Caffael a gweithredu cyfres o ddulliau cydweithio i gefnogi darparu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon.
7. Datblygu Cynllun Cefnogi Digidol ar gyfer busnesau yn Rhondda Cynon Taf ac i dderbyn adroddiadau pellach fel bo'n briodol ar y deilliannau sy'n cael eu cyflwyno.
8. Datblygu rhaglen fuddsoddi technoleg i sicrhau bod seilwaith digidol craidd yn parhau'n gadarn ac yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

9. Derbyn adroddiad yn y dyfodol mewn perthynas â'r achos busnes a'r opsiynau ar gyfer ail-leoli cyfleuster Canolfan Ddata'r Cyngor mewn ymateb i gynlluniau sydd wedi cael eu cytuno ar gyfer darparu Gofal Ychwanegol yn Safle Bronwydd yn y dyfodol.
10. Adolygu trefniadau rheoli data yn y Cyngor i sicrhau cysondeb a diogelwch defnydd data ac i gaffael a threalu'r defnydd o ddulliau dadansoddi i gefnogi gwell gwybodaeth fusnes.
11. Cefnogi'r ymrwymadau ariannol sy'n cael eu hamlinellu yn Nhabl 1 (paragraff 9.2) yr adroddiad a deilliant yr ymarferion caffael sydd wedi cael eu cytuno. Bydd y rhain yn cael eu hariannu drwy'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, gyda'r cafeat bod angen adroddiad pellach pe bai unrhyw ymrwymadau ariannol ychwanegol yn cael eu nodi.
12. Derbyn adroddiadau pellach ar gynnydd y camau gweithredu cyfredol i gyflawni Strategaeth Ddigidol y Cyngor, yn ogystal â diweddariadau ar gamau gwaith pellach a chyfleoedd trawsnewid digidol wrth iddyn nhw godi.

## **9 CYFLEOEDD PARTNERIAETH STRATEGOL**

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol yr Aelodau at ei adroddiad sy'n rhoi manylion am opsiwn i'r Cyngor gychwyn proses gaffael er mwyn i bartner strategol greu Canolfan Rhagoriaeth ar gyfer gwasanaethau penodol.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod swyddogion y Cyngor wedi bod yn adolygu cyfleoedd i ddatblygu Canolfan Ragoriaeth, yn Rhondda Cynon Taf, ar gyfer rhai gwasanaethau cymorth / trafodion. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at fodel tebyg o fewn Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â gwasanaeth referniw a budd-daliadau.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod yn cael ei argymhell bod y Cyngor yn ceisio caffael cytundeb partneriaeth lle bydd y partner yn dod ag arbenigedd swyddogaethol, gwybodaeth am y farchnad a gwybodaeth fasnachol, arbenigedd rheoli newid a gallu i dyfu'r gwasanaeth. Ychwanegodd fod y trosglwyddiad tuag at gredyd cynhwysol yn debygol o ostwng llwyth gwaith y gwasanaeth referniw a budd-daliadau gan gael effaith andwyol ar nifer y swyddi. Byddai partneriaeth strategol yn galluogi'r gwasanaeth i dyfu trwy ddarparu gwasanaethau i gynghorau eraill yn rhanbarth De Cymru a/neu tu hwnt.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol y cyfle i weithio mewn partneriaeth. Dywedodd y byddai cyfle o'r fath yn diogelu'r swyddi presennol yn ogystal â dod â rhagor o swyddi i'r Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd hefyd y byddai'r cyfle yn caniatáu twf pellach maes gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n bodoli eisoes.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd ar yr eitem, gan gydnabod yr enghraifft gadarnhaol o gydweithio a gweithio rhanbarthol mae'r cyfle wedi rhoi.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am ddiogelu swyddi drwy'r fenter, a chroesawodd barhau'r cynllun prentisiaeth a'r cynllun ar gyfer graddedigion o fewn y cynnig.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi ac ystyried yr egwyddorion allweddol sy'n sail i drefniant partneriaeth strategol posibl;
2. Awdurdodi swyddogion i gychwyn proses gaffael; a
3. Derbyn adroddiad pellach gyda chanlyniad y broses gaffael er mwyn penderfynu a yw'r cyngor yn dymuno symud ymlaen â'r cyfle ai peidio.

## **10 CYNNIG I GYNNWYS Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL YN RHAN O WASANAETH A RENNIR SY'N CAEL EI GYNNAL GAN GYNGOR BRO MORGANNWG**

Rhoddodd adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen fanylion i'r Aelodau am gynnig i Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ymuno â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol presennol sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Bro Morgannwg. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu y byddai cydweithio o'r fath yn atgyfnerthu gwydnwch busnes, yn gwella ymhellach yr ystod o arbenigedd archwilio sydd ar gael i'r Cyngor ac yn cefnogi darparu gwasanaeth mwy effeithlon.

Tawelodd Cyfarwyddwr y Gyfadran feddyliau'r Aelodau drwy ddweud bod swyddogaethau archwilio mewnol Rhondda Cynon Taf â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol yn gadarn pe bai'r cynnig yn cael ei symud ymlaen. At hynny, ychwanegodd, yn seiliedig ar y deilliannau sydd wedi cael eu cyflawni gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol hyd yma, mae'n cael ei ystyried y bydd buddion busnes ychwanegol i Rondda Cynon Taf pe bai'n dod yn rhan o wasanaeth rhanbarthol.

Cafodd manylion pellach eu rhoi i'r Aelodau am y trefniadau i'w gweithredu pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn. Cafodd manylion am y cytundebau partneriaeth, y llywodraethu, y staff a'r Pwyllgor Archwilio eu rhoi i'r Aelodau.

Soniodd Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol am fanteision y cynnig. Croesawodd yr egwyddor allweddol sy'n sail i'r cynnig y byddai'r holl weithwyr presennol yn cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol newydd ar y graddau a'r telerau ac amodau cyfredol. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at yr arbediad ariannol bach o £25 mil a fydd, o bosib, yn cael ei wneud yn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu.



Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am bwysigrwydd swyddogaeth yr Archwiliad Mewnol a Phwyllgor Archwilio'r Cyngor, a chroesawodd oruchwyliaeth y Pwyllgorau Archwilio o'r trefniadau gweithredu os bydd y cynnig yn cael ei symud ymlaen. Unwaith eto, cyfeiriodd yr Aelod at y cydweithio cadarnhaol ar sail ranbarthol a'r ymagwedd synhwyrol a masnachol tuag at y swyddogaeth archwilio sy'n cael ei datblygu.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r cynnig i Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ymuno â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol presennol ar waith rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a'r Aelod priodol o'r Cabinet, i wneud y trefniadau angenrheidiol o dan awdurdod dirprwyedig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddod yn rhan o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol, gan gynnwys diweddarau'r Cytundeb Partneriaeth presennol yn unol ag Adran 101/102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
3. Cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Pwyllgor Archwilio oruchwyllo'r trefniadau gweithredu gofynnol yn ystod 2018/19.

11

#### **GWAITH DEUOLI A4119 Ffordd Cwm Elái - Parc Busnes Llantrisant Hyd at Gylchfan Coed-elái**

Cyfeiriodd Pennaeth Materion y Priffyrdd a Pheirianeg yr Aelodau at ei adroddiad sy'n rhoi manylion am y gwelliannau mawr i'r rhwydwaith briffyrdd presennol ar Goridor yr A4119, h.y. deuoli rhan 1.3 cilomedr o Ffordd Cwm Elái o Barc Busnes Llantrisant hyd at Gylchfannau Coed-elái. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu am y sefyllfa hyd yn hyn a bod angen bwrw ymlaen â'r gofynion i ganiatáu gwelliannau pellach i'r briffordd. Soniodd Pennaeth Materion y Priffyrdd a Pheirianeg am y cais cynllunio angenrheidiol a bod angen trefnu Gorchmynion Prynu Gorfodol / Gorchmynion Ffyrdd Ymyl os ydyn nhw'n berthnasol. Soniodd hefyd am yr angen i ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr er mwyn symud ymlaen â'r cynllun.

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a'r gwelliant i'r seilwaith priffyrdd, gan ddweud bod y gwaith yn ymrwymiad allweddol ym manifesto'r Blaid Lafur. Siaradodd yr Arweinydd am y cyfleoedd ariannu sydd ar gael i symud y prosiect ymlaen. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i edrych ar welliannau pellach i atal tagfeydd traffig ar y seilwaith.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai am y diddordeb gan ddatblygwyr ers cyhoeddi'r gwaith ar y seilwaith priffyrdd. Ychwanegodd y gallai gwelliannau o'r fath fod yn gatalydd ar gyfer datblygiadau pellach.

Siaradodd y ddau Aelod lleol, y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A Davies-Jones a D Grehan ar yr eitem, ac ymatebodd yr Arweinydd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd i gyflwyno cais cynllunio (os oes angen) ar ran y Cyngor ar gyfer Gwaith Deuoli'r A4119 Ffordd Cwm Elái - Parc Busnes Llantrisant hyd at Gylchfannau Coed-elái.
2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd i negodi, lle mae modd, i brynu unrhyw dir sy'n eiddo i drydydd parti sydd ei angen ar gyfer y cynllun deuoli arfaethedig. Os nad oes modd prynu tir o'r fath drwy negodi, dirprwyo'r pwerau sy'n cael eu hamlinellu ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad sy'n ymwneud â gweithredu Gorchmynion Prynu Gorfodol a Gorchmynion Ffyrdd Ymyl.
3. Yn ddarostyngedig i dderbyn caniatâd cynllunio (neu gadarnhad ffurfiol nad oes angen caniatâd cynllunio) a chael digon o gyllid ar gyfer pob cam o'r broses, i roi awdurdod dirprwyedig i'r Gyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddiogelu bob cam yn y broses o lunio, cadarnhau a gweithredu Gorchmynion Prynu Gorfodol a Gorchmynion Ffyrdd Ymyl (os ydyn nhw'n angenrheidiol) mewn perthynas â'r tir sy'n cael ei amlinellu ar y cynllun yn Atodiad A o'r adroddiad gan gynnwys ond heb gael ei gyfyngu i'r camau gweithdrefnol yma:
  - Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Gorchmynion Prynu Gorfodol a Gorchmynion Ffyrdd Ymyl gan Weinidogion Cymru (neu, os yw hynny'n cael ei ganiatáu, gan y Cyngor yn unol ag Adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981), gan gynnwys paratoi a chyflwyno achos y Cyngor ar gyfer unrhyw Sylwadau Ysgrifenedig, Gwrandawriad neu Ymchwiliad Cyhoeddus a all fod ei angen.
  - Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau o gadarnhad o'r Gorchmynion Prynu Gorfodol a Gorchmynion Ffyrdd Ymyl ac ar ôl hynny, gweithredu a chyflwyno unrhyw Ddatganiadau Breinio Cyffredinol a/neu Hysbysiadau i Drafod Telerau a Hysbysiadau Mynediad.
  - Cael y buddiannau angenrheidiol yn y tir.
  - Atgyfeirio anghydfodau sy'n ymwneud ag iawndal prynu gorfodol i'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau).

**12 Derbyn Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19, yn dilyn y diwygiadau a gafodd eu hadrodd yn 23ain Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.**

Nododd yr Aelodau y Cynllun Dirprwyo Arweinwyr ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am**

**Cllr A Morgan  
Cadeirydd.**